# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 16 Awst 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans a J.K. Howell

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:** Cynghorwyr M.D. Cranham and A. Evans

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.45 yb**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Mr Llyr Jones, ar ran Canolfan S4C Yr Egin, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio ffilm a oedd yn ddi-ddosbarth yn flaenorol.

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilm a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant ei wylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i wneud yr argymelliadau gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilm, cafodd gyfle i wylio'r ffilm gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Nododd yr Is-bwyllgor hefyd fod y ffilm wedi cael tystysgrif 12 gan Gyngor Sir Penfro a bod swyddogion hefyd yn argymell cyhoeddi tystysgrif 12.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai'r ffilm "SCAM" yn cael ei hystyried yn addas i bobl dros 12 oed.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**